

'MYFI YW DRWS Y DEFAID'.

Emyn: 746 'Dilynaf fy Mugail drwy f'oes.'

Darlleniad: Ioan 10:1-10.

Neges: Mae'r Beibl yn llawn o gyfeiriadau at Dduw ac Iesu fel bugail: Salm 23, 100:3; Eseia 40:11; Marc 14:27 ac ati.

DAMEG Y GORLAN.

Iesu yw'r bugail yn y ddameg ond pwy yw'r lladron a'r ysbeilwyr? Beth yw arwyddocâd y gorlan? Rhaid edrych nôl i'r 9fed bennod. Yno gwelir y Phariseaid yn 'taflu allan' (34) dyn dall a oedd wedi derbyn ei olwg yn ôl gan Iesu. Trwy wrthod y dyn dall gwnaethant wrthod gallu Iesu i iachau a gwrthod Iesu fel Arglwydd, Mab Duw ei hun.

Yn amser Iesu roedd 2 fath o gorlan:

i) Corlan y Wlad: Cylch o gerrig mewn cae agored. Nid oedd gât/drws iddo – buasai'r bugail yn gorwedd ar draws y mynediad dros nos. ii) Corlan y Dref: Lle wedi ei amgae (enclosed), wal gyda drws/gât ynddo. Buasai ceidwad yn gofalu am y defaid dros nos. Dyma'r gorlan yn yr adnodau cynnar. Mae'r bugail da yn myned trwy'r gât ac mae ei ddefaid yn ei adnabod. Nid felly gyda'r lleidr!

Pa wersi wnawn ddysgu o'r ddameg?

i) Galw ei ddefaid: Mae'r bugail da 'yn galw ei ddefaid ei hun wrth eu henwau ac yn eu harwain hwy allan' 3.

a) Sylwer, Ei ddefaid ydynt ac mae'n eu hadnabod – "Myfi yw'r bugail da; yr wyf yn adnabod fy nefaid, a'm defaid yn f'adnabod i"14. b) **Sut gall hyn fod?** "Hwy yw rhodd fy Nhad i mi," 29. Maent wedi ei rhoi gan y Tad. c) **Beth oedd y bugail yn barod i wneud dros ei ddefaid?** Marw! "Y mae'r bugail da yn rhoi ei einioes dros y defaid," 11. Oen Duw, Iesu, yn rhoi ei fywyd dros bobl Dduw!

ii) Galw wrth eu henwau: a) Mae'n adnabod ei ddefaid ac yn gwybod eu henwau. Cofier, roedd yn bosib bod mwy nag un praidd o ddefaid o fewn un gorlan, ond ei ddefaid ef yn unig oedd yn adnabod ei lais ac yn ei ddilyn allan o'r gorlan. b) Mae rhywbeth personol mewn gwybod enw rhywun. Gwnaeth **Mair** adnabod Iesu yn dilyn Ei atgyfodiad, pan wnaeth ei galw wrth ei henw. Gwnaeth Iesu alw **Mathew** wrth ei enw er mwyn iddo ei ddilyn fel disgybl. Galwodd **Sacheus** o'r goeden wrth ei enw. Mae Iesu yn adnabod ac yn gwybod enwau ei bobl.

iii) Galwad i'r Eglwys: **I ble wnaeth Iesu alw'r defaid?**

Galwodd hwynt allan o'r gorlan, allan o Iddewiaeth, ac i mewn i'w eglwys. Mae Iesu yn galw pobl o bob 'teyrngarwch llai' (lesser loyalties) boed crefydd wag,

paganiaeth, materoliaeth neu bleserau bydol, i fod yn rhan o'i deulu, yn rhan o'i eglwys fyw. **A ydym yn adnabod ei lais? A wnawn ni ei ddilyn ef?** Sut? Trwy fod yn rhan o'i eglwys fyw, gyda'r gwir obaith am nefoedd a bywyd yn ei holl gyflawnder.

Gweddi: O Dduw Dad, a ninnau'n teimlo fel petai ein bod wedi ein corlannu fel defaid oherwydd y coronafeirws, ein gweddi yw, ar i Ti fod yn nerth ac yn gysur i ni yn y cyfnod anodd hwn. Gwyddom fod y cyfyngiadau (restrictions) yn dechrau llacio ond mae'r feirws dal ar waith yn creu gofid a phoen. Gweddiwn am driniaeth ddiogel, am frechlyn (vaccine) a fydd yn rheoli lledaenu'r feirws. Gweddiwn dros wyddonwyr a thechnegwyr sydd wrthi yn ceisio datblygu brechlyn tebyg.

Diolch O Dad, bod capeli ac eglwysi yn ail-agor. Gallwn ddeall yn iawn fod rhai pobl dal yn bryderus i ddychwelyd i fan cyhoeddus ac i'r capel oherwydd bod eu hiechyd yn fregus, felly parha i'w cynnal yn gorfforol ac yn ysbrydol, hyd nes daw'r amser pan fyddant yn teimlo'n hyderus i ddychwelyd i'r capel. I eraill sydd yn barod i ddychwelyd, rho dawl meddwl iddynt a chadw pawb yn iach o'r ferriws os gweli yn dda. Er na fydd trefn oedfaon fel ag yr oeddent am gyfnod, diolch am gyfle newydd i gyd-addoli

ac i fod yn dy gwmni di gyda phobl eraill unwaith yn rhagor.

Clyw ein gweddi a chymer i ffwrdd bob ofn ac ansicrwydd. Yn enw Iesu Mawr, Amen.

"I AM THE DOOR OF THE SHEEP".

Hymn: 948 *'Guide me, O thou great Jehovah.'*

Reading: John 10:1-10.

Message: **THE PARABLE OF THE SHEEPFOLD.**

Jesus is the shepherd in the parable but who are the thieves and robbers? What is the significance of the sheepfold? We need to look back to chapter 9. There we see how the Pharisees 'cast out' a blind man who had been healed by Jesus. In so doing, they rejected Jesus' power to heal and Jesus himself as Lord and Son of God.

In Jesus' days there were 2 sheepfolds:

i) Rural Sheepfold: A circle of stones in an open field. There was no gate or door; the shepherd would sleep across the entrance at night. ii) Town Sheepfold: An enclosed (walled) area with a gate or door. A gatekeeper would guard the sheep at night. This is the sheepfold in the opening verses. The good shepherd enters through the gate and his sheep recognise him. Not so the robber who climbs over the wall and scatters the sheep.

What lessons do we learn from the parable?

i) Calling His Sheep: The good shepherd '***calls his own sheep*** by name and leads them out,' 3. a) They are his sheep and he know's them. "*I am the good shepherd. I know my own and my own know me,*" 14. b) **How can this be?** "*My Father (who) has given them to me,*" 29. c) **What was he prepared to do for his sheep?** Die! "*I am the good shepherd. The good shepherd lays down his life for the sheep,*" 11. The Lamb of God, Jesus, gave his life to save God's people.

ii) Calling by Name: The good shepherd not only knows his sheep but knows their names. It was possible for more than one flock to be enclosed within a sheepfold, but it was only his own sheep who recognised the shepherds' voice and followed him. There is something personal about knowing someone's name. Mary recognised Jesus after his resurrection only after he had called her by name. Jesus called Matthew the tax collector by name and he followed Jesus as a disciple. Jesus called Zacchaeus from the tree by his name, though there is no evidence that they had met previously. Jesus knows his people by name.

iii) Calling to the Church: **To where does Jesus call the sheep?** He calls them out of the sheepfold, that is, Judaism and into his Church. Jesus calls people from their

'lesser loyalties' an empty religion, paganism, materialism or from worldly pleasures to himself, to be a part of His family, His church. **Do we know His voice? Are we following Him?** Are we a part of His church with a true hope for heaven and life in all its fullness?

Prayer: Our Heavenly Father, at times we feel like sheep penned in and separate from others because of the coronavirus. Our prayer is that you will strengthen and comfort us in these trying days. We know that restrictions are slowly being eased, yet the virus is still around us creating fear and uncertainty. We pray for a safe treatment of this virus, a vaccine that will control the spread of the virus. Please give wisdom and guidance to the scientists and technicians that are developing such a vaccine.

Dear Father, we give thanks that some chapels are now re-opening. However, we understand that there are some people who are still weary of going to public places, such as to a chapel, at this time. We pray that you will continue to support and comfort them both physically and spiritually, until the time comes for them to return to the chapel. For others who are ready to return to the chapel,

please give them a sense of your peace and continue to keep us all well and free from the virus.

Though worship services will be a little different in the coming weeks because of safety restrictions, we do look forward to a new opportunity to worship together and to be in your presence as a congregation once again. Hear our prayer and continue to protect and guide us.

In Jesus name we ask, Amen.